



## Ysgol Pentreuchaf

### 133. Polisi Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwysu (ANG)

**Aelod Staff Dynodedig a Cyfrifoldeb ANG – Pennaeth**

#### **Nod**

Sicrhau fod pob athro/athrawes newydd gymhwysu yn cael ei anwytho'n effeithiol i drefn yr ysgol ac yn cael pob cymorth posibl.

#### **Canllawiau**

1. Bydd holl staff yr ysgol yn croesawu'r ANG ac yn gwneud pob dim o fewn eu gallu i'w helpu i deimlo'n gartrefol a hyderus yn ein mysg.
2. Bydd yr aelod staff dynodedig (ac o bosibl athrawon eraill) wedi dilyn cwrs perthnasol, mentoriaid ac athrawon eraill yn darparu cyngor a chefnogaeth penodol o ran cynllunio, asesu, agweddau cwricwlaidd, rheolaeth dosbarth, dulliau dysgu a disgyblaeth ac ymddygiad.
3. Dilynir canllawiau a chyfarwyddiadau Cynulliad Cymru a'r Cyngor Addysgu.
4. Er nad yw'r Cynulliad yn ariannu cyrsiau i ANGau, teimlwn ei bod yn holl-bwysig eu bod yn cael dilyn cyrsiau anwytho i athrawon newydd, felly bydd yr ysgol yn ysgwyddo'r baich o dalu am hwn ac am athrawes lanw am y dyddiau perthnasol.
5. Sicrheir fod copiau o'r dogfennau perthnasol yn cael eu rhannu gyda'r ANG – yn benodol – Llawlyfr Staff, Polisiau, Cynlluniau Gwaith, Llawlyfr yr Ysgol, Cynllun Datblygu, Adroddiad Hunan Arfarnu, gwybodaeth am ddisgyblion penodol, rhifau ffôn y staff a.y.y.b.
6. Os yn bosibl, byddwn yn trefnu ymweliad (am o leiaf diwrnod) i'r ANG yn y tymor blaenorol ar mwyn iddi/iddo gael dod i adnabod y staff a'r plant a dod yn gyfarwydd â'r adeilad, rhediad y diwrnod a.y.y.b.
7. Bydd y Pennaeth / Aelod Staff Dynodedig / aelod o'r UDRh yn arsylwi ar yr ANG yn dysgu'n dymhorol, gan roi adborth adeiladol, edrych ar y cynllunio, asesu a.y.y.b.
8. Ar ddiwedd bob tymor, bydd y Pennaeth / Aelod Staff Dynodedig / aelod o'r UDRh yn creu adroddiad am yr ANG. Caiff ei drafod gyda'r ANG, a chedwir copiau gan yr ANG, cedwir copi yn yr ysgol a gyrrir un i'r Awdudod Perthnasol.
9. Dylid hefyd gyfeiro at y polisi 'Sefydlu Staff Newydd'.

#### **Casgliad**

Sicrhau fod unrhyw aelod newydd o'r staff yn deall holl weithdrefnau'r ysgol, yn teimlo ei bod yn cael croeso ac y gall ofyn am unrhyw gymorth er budd yr unigolyn a'r ysgol gyfan.

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Dyddiad: \_\_\_\_\_**